| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **16 Ionawr 2012** |
| **Teitl :** | **Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Sefydlwyd Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn 2011, a gwahoddwyd Cadeirydd ac Is-gadeirydd pob pwyllgor ynghyd a swyddogion monitro i fynychu'r cyfarfodydd.

2. Cynhaliwyd tri chyfarfod, ac atodir cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15/04/11 a 10/06/11 er gwybodaeth.

3. Cynhaliwyd cyfarfod hefyd ar 01/11/11 a rhoddwyd llythyr Cadeirydd Pwyllgor Safonau Powys ar y rhaglen yn unol â dymuniad y Pwyllgor hwn. Bydd aelodau yn cofio fod y llythyr yn ymwneud ag arfer yr Ombwdsmon o gau achosion lle mae'n credu na fyddai pwyllgor safonau yn gosod unrhyw gosb. Teimlwyd serch hynny nad oedd digon o gynrychiolwyr yn bresennol i gynrychioli barn y Fforwm a gohiriwyd y cyfarfod.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth.